Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Emmanuel
Ffordd Victoria
Y Rhyl
LL18 2EG

23/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Emmanuel yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau ansawdd yr adborth i ddisgyblion fel eu bod yn deall sut i symud eu dysgu ymlaen

- Mae'r ysgol wedi datblygu dulliau effeithiol i ddarparu adborth i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn monitro gweithredu'r dulliau hyn yn ddiwyd i sicrhau lefelau uchel o gysondeb ar draws yr ysgol.
- Mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ar lafar i ddisgyblion yn ystod gwersi i'w helpu i oresgyn camdybiaethau a symud dysgu ymlaen.
- Mae disgyblion yn elwa ar adborth ysgrifenedig rheolaidd a phwrpasol. Mae'r adborth yn canolbwyntio'n dda ar y dysgu bwriadedig ac yn galluogi disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda ac ystyried sut gallent wella'u gwaith.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall diben adborth ysgrifenedig. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn dod yn gynyddol fedrus yn ymateb i'r adborth i wella'u gwaith. Mae hyn hefyd yn eu cynorthwyo i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Mae athrawon yn aml yn defnyddio'r broses adborth yn effeithiol i dargedu agweddau penodol ar ddysgu disgyblion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ganolbwyntio eu hymatebion yn glir ac ysgogi gwelliannau penodol a gwerthfawr i'w gwaith.

- Mae athrawon yn dadansoddi gwaith disgyblion yn ofalus ar lefel unigol a dosbarth i lywio dysgu yn y dyfodol.
- Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dod yn fedrus o ran gwerthuso gwaith ei gilydd ac yn darparu syniadau adeiladol ar gyfer gwella i'w cyfoedion.

## Gwella medrau Cymraeg disgyblion

- Mae gan arweinwyr a staff ffocws cryf ar sefydlu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig a pherthyn. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus trwy ymglymiad disgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau, fel Dydd Miwsig Cymru ac Eisteddfodau.
- Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o ddysgu proffesiynol pwrpasol sy'n datblygu medrau Cymraeg staff yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodelau rôl cryf o ran hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ei defnyddio trwy gydol y diwrnod ysgol. At ei gilydd, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, ac maent yn ei defnyddio'n rheolaidd mewn gweithgareddau dysgu.
- Mae arweinwyr wedi datblygu'r pasbort iaith, 'Iaith ar Daith', sy'n cefnogi datblygiad cynyddol medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol.
- Mae disgyblion yn elwa ar sesiynau dyddiol Helpwr Heddiw sy'n eu galluogi i ddysgu ac ymarfer geirfa a phatrymau brawddeg cyffredin yn gynyddol. Mae athrawon yn defnyddio gwersi Cymraeg rheolaidd i ymestyn eu dysgu yn effeithiol.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu ystod briodol o adnoddau defnyddiol ar gyfer disgyblion, yn cynnwys arddangosfeydd ar waliau, sy'n atgyfnerthu eu medrau Cymraeg yn bwrpasol.
- Mae'r 'Criw Cymraeg' yn chwarae rôl effeithiol mewn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Trwy ymadroddion yr wythnos sy'n cael eu hyrwyddo mewn cylchlythyrau a gwasanaethau, mae'r disgyblion hyn yn codi statws y Gymraeg yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-emmanuel-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol